# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 07/12/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Fformiwla Gyllido Deg

***3. Brian Gibbons:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fformiwla gyllido deg ar gyfer Cymru. OAQ(3)3279(FM)* ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i bwyso ar Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r diffyg o ran cyllid i Gymru, yn unol â chytundeb trawsbleidiol yn y Cynulliad. Byddai gosod 'llawr' o ran cyllid yn gam cyntaf pwysig i sicrhau tegwch, a'r nod yn y pen draw fyddai sefydlu fformiwla anghenion newydd.

*Atebwyd cwestiynau 4 i 12 yn ystod y Cyfarfod Llawn.*

### Ardrethi Busnes

***13. William Graham:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am godi ardrethi busnes. OAQ(3)3288(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae ardrethi busnes yn cael eu casglu gan awdurdodau lleol a'u talu i mewn i'r gronfa ganolog sydd, ynghyd ag elw y dreth gyngor a grantiau cymorth refeniw gan Lywodraeth y Cynulliad, yn darparu cyllid ar gyfer gwasanaethau craidd awdurdodau lleol.

### Gwasanaeth Thrombolysis

***14. Trish Law:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i gyflwyno gwasanaeth thrombolysis 24 awr ar gyfer cleifion strôc yn Ne Ddwyrain Cymru. OAQ(3)3283(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn cydnabod manteision datblygu gwasanaethau thrombolysis a fydd ar gael 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Mae lefelau darpariaeth byrddau iechyd lleol yn amrywio, ac yr ydym yn buddsoddi i gynyddu rhwydweithiau telefeddygaeth ar draws Cymru, gan ddechrau yn y de-ddwyrain, fel bod mwy o gleifion yn gallu cael eu hasesu am thrombolysis o fewn y cyfnod tyngedfennol o dair awr.

### Blaenoriaethau

***15. Nick Bourne:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei brif flaenoriaethau ar gyfer gweddill y tymor Cynulliad hwn. OAQ(3)3295(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad yn parhau fel ag y maent yn rhaglen 'Cymru'n Un'. Mae hynny'n cynnwys cynnal refferendwm ar bwerau deddfu, diogelu gwasanaethau cyhoeddus, sicrhau adferiad economaidd cynaliadwy a chyflawni ein rhaglen ddeddfwriaethol.